OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 837 (Cy.99)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*26 Mawrth 2002*
Yn dod i rym	- -	*10 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddo gan adran 33 ac 146 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**):

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 10 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio'r Gorchymyn

2. Ym mharagraff (b) o erthygl 2 o Orchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) 1996(**2**) yn lle "£24,000" rhowch "£30,000".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

Rhodri Morgan
Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

26 Mawrth 2002

(**1**) 1996 p. 53; mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler erthygl 2 o ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**2**) O.S. 1996/2888, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/1275 (Cy. 74).
(**3**) 1998 p.38.